| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **8 Mawrth 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO -<br>ATRIUM ALFRESCO, 4 STRYD TEGID, Y BALA** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**CAIS**

Cafwyd cais i adolygu trwydded eiddo Atrium Alfresco, 4 Stryd Tegid, Y Bala gan John Alwyn Thomas, Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu, Cyngor Gwynedd.

Gwneir y cais hwn gan yr awdurdod trwyddedu sy'n gweithredu fel yr awdurdod cyfrifol dan Ddeddf Trwyddedu 2003. (Ychwanegodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 awdurdodau trwyddedu i'r rhestr o awdurdodau cyfrifol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ar 25 Ebrill 2012.)

Mae'r cais i adolygu'r drwydded eiddo yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu a ganlyn:
- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Y rhesymau ar gyfer adolygiad yw:
- Cynnal gweithgareddau trwyddedig ar adegau sy'n groes i'w drwydded.
- Methu â chydymffurfio ag amodau a osodwyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog.

Cymeradwywyd trwydded eiddo Atrium Alfresco yn wreiddiol yn dilyn gwrandawiad yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog ar 10 Tachwedd 2011. Yn ystod gwrandawiad y pwyllgor cafodd yr amseroedd ar gyfer y gweithgareddau trwyddedig eu pennu yn ogystal ag oriau agor yr eiddo, a rhoddodd y pwyllgor amod ynghlwm â'r drwydded bod yr eiddo yn gosod system TCC tu mewn a thu allan i'r eiddo.

Mae datganiadau tyst a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn datgan mai wrth ymateb i gwynion ynglŷn â sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Stryd Tegid y darganfuwyd bod Atrium Alfresco yn cynnal gweithgareddau trwyddedig tu allan i'w horiau trwyddedig ar 09/06/2012 a 28/07/2012 yn ôl eu trefn. Hefyd, ar 07/09/2012 o ganlyniad i ymchwiliad o'r eiddo gyda deilydd y drwydded darganfuwyd nad oedd gan yr eiddo system TCC ac nad oedd Rhan B eu trwydded eiddo yn cael ei arddangos yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Mae'r ymgeisydd yn argymell y dylid diwygio'r drwydded eiddo fel a ganlyn:

| | **Trwydded Gyfredol** | **Newid Arfaethedig** |
|---|---|---|
| Darparu Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos | Dydd Sul i Ddydd Iau 23:00 – 00:00<br>Dydd Gwener i Ddydd Sadwrn 23:00 – 01:00 | Dydd Sul i Ddydd Sadwrn<br>23:00 – 00:00 |
| Cyflenwi Alcohol yn yr eiddo | Dydd Sul i Ddydd Iau 12:00 – 00:00<br>Dydd Gwener i Ddydd Sadwrn 12:00 – 01:00 | Dydd Sul i Ddydd Sadwrn<br>12:00 – 00:00 |
| Oriau agor yr eiddo | Dydd Sul i Ddydd Iau 12:00 – 00:30<br>Dydd Gwener i Ddydd Sadwrn 12:00 – 01:30 | Dydd Sul i Ddydd Sadwrn<br>12:00 – 00:15 |

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cais hwn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais i adolygu'r drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003.